

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 31ain o Hydref 2018

LLEOLIAD CANOLFAN GLASINFRYD am 7.00pm.

Agenda

Presennol

Ymddiheuriadau

Cod Ymddygiad

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 26-09-2018

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddiad Ariannol

Archwylwyr Allannol Dim wedi ei dderbyn hyd yma

Ceisiadau Nawdd Dim wedi ei dderbyn hyd yma

Taliadau angen sylw

D W Lewis	Torri Mis Hydref	£690.00
Cyflog	Mis 7 Medi	£443.00
HMRC	Mis 7	£110.80
Gofalwraig	Ebrill i Hydref	£150.00
Anghenion Swyddfa	Ink a stapler a tac gwyn	£ 50.92
Gwilym Hughes	Torri Llwybrau Pentir tymor cyfan	£900.00
Eric Jones Paentiwr	Paentio'r Swyddfa Parc Menai	£375.00
Unllais	Hyfforddiant	£ 40.00

Derbynebion

1. Claddu Llwych gan Gwilym Jones ail-agor bedd llwych £ 90.00
2. Claddu gan J Turner Bedd newydd tu allan i'r Plwy £450.00

I'w trafod hefyd Prydles y Swyddfa

Profion Y Swyddfa

Gwagio'r Swyddfa

Cynnigion i Storio am oddeutu y 2 flynedd nesaf

Damwain Giat y Fynwent

Llythyr Cyngor Gwynedd - benthyciad

Ymateb Gamlins i brydlesi y ganolfan bresennol a'r newydd

Diweddariad Prosiect Ysgol Y Faenol

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 26ain o Fedi 2018 yn Swyddfa, Parc Menai am 7.00pm.

Presennol Cyng C. E. Hughes - J. Pierce -, L James - D W Jones a B Jones

Ymddiheuriadau Cyng D Jones-Morris,

Cadeirwyd gan Cyng L James

Cod Ymddygiad Dim i'w ddatgan

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 29-08-2018

Materion yn codi o'r cofnodion Dim mater nad oedd yn wedi ei gynnwys o fewn yr agenda

Adroddiad Ariannol

Dosbarthwyd mantolen ariannol am Mis Medi oedd yn dangos fod £46,817.32 yn y cyfrif ond ddiwedd busnes 26-09-18 Dosbarthwyd mantolen banc yn dangos balans o £47,227.92 yn y banc am fod yna ddwy siec am gyfanswm o £410.60 heb eu cyflwyno.

'Roedd ail ran y Praesept o £25K wedi cyrraedd y banc ddechrau Medi

Er nad oedd eto wedi ein cyrraedd 'roedd cadarnhad drwy e-bost gan ein cyfrifwyr fod £2927.04 o ad-daliad TAW o'r flwyddyn ariannol 2017-18

Archwylwyr Allannol

Ers ein cyfarfod dwaetha ag ymateb i'r Archwylwyr Allannol 'roedd cyswllt pellach wedi digwydd yn holi eto am ein cofrestr asedau parhaol a'r Clerc wedi ei anfon eto am y trydydd tro. 'Roedd ymholiad hefyd ynglyn a llythyr penodi yr Archwilydd mewnol am y flwyddyn ariannol 2015-16.

Y Cadeirydd am ysgrifennu at BDO yn datgan siomedigaeth nad ydynt wedi gallu cwblhau eu archwiliad erbyn diwedd Medi. Hefyd ychwanegu y dylent fod wedi trafod a datrys camweddau 2015-16 yn ystod 2016 -17 yn hytrach na rwan yn 2018-19

Ceisiadau Nawdd

- Llais Ogwan – dim cais o'r newydd ond disgwyl mantolen – 2017-18
Dim wedi ei dderbyn ond nid oedd 12 mis wedi mynd ers ein cyfraniad olaf
- Seintiau Bangor
Darllenwyd eu cais oedd yn uniaith saesneg yn amlinnellu eu gweithgaredd ynghyd a'i mantolen ariannol. Clwb ydi hwn yn cynnig peldroed i blant sydd ddim o reidrwydd yn meddu ar sgiliau uchel ond yn mwynhau cymeryd rhan.
Argymhell cyfrannu £300 iddynt Ychwanegu y dyliai ceisiadau gael eu cyflwyno'n ddwy-ieithog

Taliadau angen sylw

Cytunwyd cymeradwyo talu y cyfan isod

D W Lewis	Torri Mis Medi	Cyflog	Mis 6 Medi	HMRC	Mis 6
Grid 76 Signs	Map Treborth	Anghenion Swyddfa		Ffeils y Llawlyfr	
	Llywodraeth Cymru	Ysw a Rhent hyd at 11-10-18			

Derbynebion Gosod Carreg Gwaith Coffaol Llanrug £75.00

I'w trafod hefyd

O'r Cyfarfod Asedau **Nid oedd wedi bod yn bosib cynnal cyfarfod gan nad oedd cworwm**

Mynegwyd pryder fod yr Is-Bwyllgor yma yn methu yn ei ddyletswyddau ag yn wir wedi bod felly ers misoedd bellach.

Argymhellir i'r Cyngor llawn ein bod yn diddymu yr Is-Bwyllgor asedau ag adnabod prosiectau o'r Cyngor Llawn

Trafodwyd yn dilyn cyfarfod o'r Clerc a dau Gynghorydd

Prisiau prynu biniau Halen a'i llenwi - Nid oedd y Clerc wedi derbyn prisiau biniau newydd/ychwanegol a felly anodd oedd cytuno ar yr union nifer fyddai o fewn ein cyllideb.

Awgrymwyd am eleni gael tri ychwanegol ar ffyrdd Fodolydd ble nad oes graeannu gyda lori yn agos i'w lleoliadau, ag ychwanegu eto yn y blynyddoedd sydd i ddod

Cytunwyd disgwyl tan bydd prisiau biniau ychwanegol i law cyn cytuno ar y nifer terfynnol ond bydd angen archebu ddiwedd Medi

Telerau y Fynwent - awgrymu 'streamlinio costau' i helpu'r Clerc. Byddai hynny yn golygu tynnu yr elfen gosod carreg fedd o'r tabl a'i gynnwys yn y gost wreiddiol o agor bedd am y tro cyntaf.

'Roedd y Clerc wedi prasio costau cynnal y Fynwent 2017-18 a hyd yma yn 2018-19

Y fynwent wedi costio £2185.00 i'r Cyngor yn 2017-18 a £2920.00 hyd yma eleni

Argymhell ein bod yn dilyn telerau Llanrug am eleni ag edrych arnynt yn flynyddol

Ymateb Gamlins i

Cofnodion/cyfrifon canolfan Penrhos a Glasinfryn

Cadarnhawyd ein bod bellach yn dilyn canllawiau yr hen brydles drwy dderbyn rhain.

Holwyd oherwydd y swm yng nghoffrau Pwyllgor Rheoli Penrhos pwy oedd yn archwyllo ag chadarnhau y cyfrifon ar ran y Pwyllgor.

Ai unigolyn yntau Cwmni

Llythyr Dafydd Gibbard

Nid oedd Gamlins yn rhagweld unrhyw broblem fod Cyngor Gwynedd yn mynnu fod ganddynt hwythau fel Cyngor Pentir yr hawl i drefynnu Prydles dros y Ganolfan bresennol hefo 3 mis o rhybudd.

Drafft yn unig fyddai prydles ar gyfer y Ganolfan newydd.

Cynghorwyd ni i beidio arwyddo honno hyd nes ein bod wedi sicrhau ein cyllidebau ariannol

Diweddariad Prosiect Ysgol Y Faenol

Dim diweddariad pellach

Ymgynghoriad yn cychwyn ar 18fed o Fedi tan ddiwedd Hydref a byddai cyfle i Cyngor Pentir ymgynghori ar yr ochr gymunedol

Prydles y Swyddfa

Opsiynau

Trafodwyd yr opsiynau oedd ar gael ynghyd a'i manteision a'i anfanteision sef

- a) Cytuno prydles newydd ar y telerau newydd neu negydu gwell telerau a hyd y brydles
- b) Gorffen yma a symud i swyddfa yn Ty Menai (sydd ar werth beth bynnag) ar delerau llai
- c) Gorffen yma a symud i leoliad arall gan storio ein eiddo a chyfarfod yn ein canolfannau ein hunain

Argymhelliad

I arbed arian sylweddol ac i leihau unrhyw fenthyciad allai ddod i'n rhan yr argymhelliad yw ein bod yn terfynnu ein cytuned ar yr 11eg o Hydref a threfnu y profion angenrheidiol mor fuan a phosib.

Chwilio am leoliad saff i storio ein eiddo a chyfarfod yn ein canolfannau o Mis Tachwedd ymlaen.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00